Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Siarter Frenhinol

*Elisabeth yr Ail drwy ras Duw Brenhines Teyrnas Gyfunol Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'n Teyrnasoedd a'n Tiriogaethau eraill, Pennaeth y Gymanwlad, Amddiffynnydd y Ffydd:*

I BAWB Y DAW'R PRESONOLION HYN ATYNT, ANNERCH!

Yn Gymaint ag y darfu i Ni, trwy'r Siarter Frenhinol ddyddiedig y seithfed dydd o Chwefror yr unfed flwyddyn ar bymtheg ein Teyrnasiad, ganiatáu Siarter newydd yn disodli'r Siarter a ganiatawyd gan Ei Fawrhydi y Brenin George y Chweched ar y nawfed dydd o Awst yn negfed flwyddyn ei Deyrnasiad a oedd yn cyfansoddi Corfforaeth o'r enw "The Arts Council of Great Britain" gydag olyniaeth bytholbarhaus ac â'r pŵer i siwio a chael ei siwio gan yr enw a enwyd ac i ddefnyddio Sêl Gyffredin:

AC YN GYMAINT â bod y Siartrau a enwyd wedi darparu ar gyfer penodi pwyllgorau a elwir y Scottish Arts Council a'r Welsh Arts Council:

AC YN GYMAINT ag y dywedwyd wrthym ei bod yn fuddiol adeiladu ar y gweithgareddau a wneir ar hyn o bryd gan yr Arts Council of Great Britain a'I bwyllgorau a enwyd trwy eu disodli â thair Corfforaeth newydd y dylai un ohonynt fod yn Gorfforaeth annibynnol a elwir Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r Arts Council of Wales:

YN AWR GAN HYNNY GWYBYDDWCH CHI ein bod Ni, ar ôl cymryd y sylwadau a enwyd i'm Hystyriaeth Frenhinol, yn rhinwedd Ein Rhagorfraint Frenhinol a'n graslonwydd arbennig, Ein gwybodaeth sicr a'n hysgogiad wedi caniatáu ac ordeinio, a'n bod drwy'r Presenolion hyn ar Ein Rhan Ni, Ein Hetifeddion a'n Holynwyr, yn caniatáu ac ordeinio fel a ganlyn:

**1.** (1) Caiff y personau a fydd yn unol â darpariaethau Ein Siarter hon yn Gadeirydd ac aelodau eraill am y tro o Gyngor Celfyddydau Cymru neu'r Arts Council of Wales eu cyfansoddi trwy hyn ac o hyn ymlaen byth bythoedd byddant yn un Gorfforaeth dan yr enw "Cyngor Celfyddydau Cymru" neu "The Arts Council of Wales" (a elwir wedi hyn "y Cyngor").

(2) Bydd gan y Cyngor olyniaeth bytholbarhaus a Sêl Gyffredin a gallant arddangos y naill neu'r llall neu'r ddau o'r enwau neu'r arddulliau hynny ar eu Sêl Gyffredin, gyda'r pŵer i dorri, newid a gwneud o'r newydd y Sêl a enwyd o bryd i'w gilydd yn ôl eu hewyllys a'u pleser a thrwy eu henw gallant siwio a chael eu siwio ym mhob llys ac ym mhob math o achosion a chynghawsau yn y naill neu'r llall neu'r ddau o'r enwau neu't arddulliau hynny, a bydd ganddynt y pŵer i wneud contractau, i gaffael, dal a gwaredu eiddo o unrhyw fath, i dderbyn ymddiriolaethau ac yn gyffredinol i wneud yr holl faterion a phethau sy'n

ymwneud â Chorfforaeth neu sy'n berthnasol iddi yn y naill neu'r llall neu'r ddau o'r enwau neu'r arddulliau hynny.

(3) Heb Ragfarn i gyffredinoledd yr uchod, bydd gan y Cyngor y pŵer i ymgymryd ag unrhyw hawliau, rhwymedigaethau a buddiannau, gan gynnwys mewn tir, yr Arts Council of Great Britain a enwyd.

**2.** Mae'r amcanion y sefydlwyd ac a ymgorfforwyd y Cyngor ar eu cyfer fel a ganlyn:

(a) i ddatblygu a gwella gwybodaeth am y celfyddydau, eu deall a'u hymarfer

(b) i gynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd

(c) i gynghori a chydweithredu ag Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adrannau o'n Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyrff eraill ar unrhyw faterion sy'n ymwneud, p'un ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion uchod; a

(d) i gyflawni'r amcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**3.** Caiff yr holl arian a'r eiddo sut bynnag y deuant i law'r Cyngor, gan gynnwys unrhyw arian a bleidleisir gan Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru, eu cymhwyso yn unswydd at hyrwyddo amcanion uchod y Cyngor, ac ni chaiff unrhyw gyfran ohono (ac eithrio fel y darperir fel arall yn Ein Siarter hon) ei thalu neu'i throsglwyddo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i aelodau'r Cyngor.

**4.** (1) Bydd y Cyngor yn cynnwys Cadeirydd, Is-Gadeirydd a dim mwy nag 16 aelod arall.

(2) Caiff y Cadeirydd a'r aelodau eraill eu penodi gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod heb fod yn fwy na thair blynedd a phenderfynir ar delerau eraill eu penodiad gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Penodir Is-Gadeirydd gan y Cyngor o blith aelodau'r Cyngor a phenderfynir ar delerau'r penodiad fel Is-Gadeirydd gan y Cyngor, ar ar amod bob amser y daw'r penodiad i ben heb fod yn hwyrach na'r diwrnod y mae'r Is-Gadeirydd yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor.

(4) Bydd pob aelod yn dal swydd ac yn ymadael â'r swydd honno yn unol â thelerau ei benodiad ond

(a) bydd yn gymwys i'w ailbenodi wedi hynny; a

(b) gall ymddiswyddo ar unrhyw amser trwy hysbysiad ysgrifenedig i'n Hysgrifennydd Gwladol

(5) Os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fodlon bod unrhyw aelod o'r Cyngor

(a) yn fethdalwr nas rhyddhawyd,

(b) wedi'i gollfarnu o drosedd o natur dwyllodrus,

(c) wedi'i wneud yn analluog oherwydd salwch corfforol neu feddyliol,

neu

(d) fel arall yn analluog neu'n anghymwys i gyflawni swyddogaethau aelod o'r Cyngor, neu'n anaddas i barhau yn aelod,

Bydd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i ddiswyddo'r aelod hwnnw o'iswydd fel aelod o'r Cyngor.

(6) (i). Gall y Cyngor dalu i aelodau'r Cyngor unrhyw dâl a awdurdodir (naill ai'n gyffredinol neu'n benodol) yn ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ond dim ond ar y telerau hynny sy'n ofynnol o dan yr awdurdod hwnnw.

(ii). Gall y Cyngor ad-dalu i aelodau'r Cyngor unrhyw wir dreuliau a dynnir yn rhesymol ganddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau.

**5.** (1) Gall y Cyngor weithredu er gwaethaf swydd wag ymhlith yr aelodau ac ni fydd unrhyw ddiffyg wrth benodi aelodau effeithiol ar ddilysrwydd unrhyw weithrediadau'r Cyngor.

(2) Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Cyngor fydd pump aelod sy'n bresennol yn bersonol neu nifer uwch fel y gall y Cyngor benderfynu arno o bryd i'w gilydd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Ein Siarter hon, gall y Cyngor reoli eu trefniadaeth eu hunain.

**7.** (1) Gall y Cyngor benodi person neu bwyllgorau a phaneli i'w chynghori a'u cynorthwyo wrth ymarfer y cyfryw swyddogaethau ag y penderfynir arnynt gan y Cyngor.

(2) Bydd y Cyngor yn penodi'n Gadeirydd o unrhyw bwyllgor neu banel o'r fath aelod o'r pwyllgor neu'r panel sy'n aelod o'r Cyngor.

(3) Gall y Cyngor benodi i unrhyw bwyllgor neu banel o'r fath aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor a gallant ar unrhyw amser ddiddymu penodiad unrhyw aelod o bwyllgor neu banel o'r fath.

**8.** (1) Gall y Cyngor reoli trefniadaeth unrhyw bwyllgor neu banel a benodir ganddynt yn unol ag Erthygl 7 Ein Siarter hon.

(2) Bydd Erthygl 4(6) (ii) Ein Siarter hon yn gymwys i aelodau o bwyllgorau a phaneli o'r fath a benodir yn unol ag Erthygl 7(1) ohoni fel y mae'n gymwys i aelodau o'r Cyngor.

**9.** Bydd hawl gan unrhyw aelod o'n Gwasanaeth Sifil Cartref yng ngwasanaeth Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru a benodwyd gan Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fod yn sylwedydd i'r Cyngor, neu i unrhyw bwyllgor neu banel o'r Cyngor, i fynychu unrhyw gyfarfod o'r Cyngor neu fel y bo'n briodol o unrhyw bwyllgor neu banel y cânt eu penodi iddo.

**10.** (1) Bydd y Cyngor, gyda chymeradwyaeth Ein Hysgrifennydd Gwladol, yn penodi prif swyddog a fydd yn brif swyddog gweithredol y Cyngor a gallant benodi'r cyfryw swyddogion eraill a chymryd i'w cyflogaeth y cyfryw bersonau eraill ag y gall y Cyngor benderfynu arnynt.

(2) Gall y Cyngor

(a) dalu i'w prif swyddog ac i'w swyddogion eraill ac i bersonau eraill a gyflogir ganddynt y cyfryw dâl ag y gall y Cyngor, gyda chymeradwyaeth Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o bryd i'w gilydd benderfynu arno;

(b) gyda chymeradwyaeth Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dalu i unrhyw swyddog neu berson arall a gyflogir ganddynt neu mewn perthynas â hwy y cyfryw bensiynau (gan gynnwys rhoddion) neu ddarparu a chynnal iddynt y cyfryw gynlluniau pensiwn (boed yn gyfrannol neu beidio), ag y gall y Cyngor benderfynu arnybt; ac

(c) heb ragfarnu cyffredinoledd yr uchod gymryd i'w cyflogaeth y swyddogion a'r personau eraill hynny a oedd gynt yng nghyflogaeth y Welsh Arts Council neu'r Arts Council of Great Britain yn gymaint â bod y Cyngor wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr ymgymeriadau y cawsant eu cyflogi ar eu cyfer ar y telerau a'r amodau yr oeddent yn eu mwynhau gyda'r Welsh Arts Council nue'r Arts Council of Great Britain .

**11.** (a) Bydd y Cyngor yn cadw cyfrifon priodol a chofnodion eraill, a bydd yn paratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiadau cyfrifon yn y fath ffurf ac y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Arglwyddi Ein Trysorlys yn ei chyfarwyddo a chyflwyno'r datganiadau cyfrifon hynny i'n Hysgrifennydd Gwladol ar y cyfryw amser ag y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddo.

(b) Bydd y Cyngor yn cadw cyfrifon a chofnodion priodol o'r holl arian ac eiddo a dderbynir o bob ffynhonnell heblaw am y Loteri Cenedlaethol mewn ffurf a fydd Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo ac yn cyflwyno y cyfrifon hyn i'w harchwilio gan ein Harchwiliwr Cyffredinol Cymru a fydd yn archwilio, ardystio a rhoi adroddiad am y cyfrifon ac yn gosod copïau o'r cyfrifon a'i adroddiad gerbron Ein Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**12.** Bydd y Cyngor cyn gynted â phosib ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol yn rhoi i'n Hysgrifennydd Gwladol adroddiad ar ymarfer a chyflawni ganddynt eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.

13. Caiff cymhwysiad Sêl y Cyngor ei ddilysu gan lofnodion y Cadeirydd neu ryw aelod arall o;r Cyngor a awdurdodir yn gyffredinol neu'n arbennig gan y Cyngor i weithredu at y diben hwnnw, ac un o gyfryw swyddogion y Cyngor ag a awdurdodir gan y Cyngor i weithredu felly.

14. Gall y Cyngor drwy benderfyniad yn y cyswllt hwnnw a wneir mewn cyfarfod o' heb fod yn llai na thri chwarter yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio (a hynny yn fwyafrif absoliwt o nifer cyfan aelodau'r Cyngor) ac a gadarnheir mewn cyfarfod pellach o'r Cyngor a gynhelir heb fod yn llai nag un mis neu yn fwy na phedwar mis wedyn gan fwyafrif tebyg ychwanegu at, diwygio neu ddiddymu unrhyw un o ddarpariaethau Ein Siarter hon ac fe ddaw y cyfryw ychwanegiadau, diwygiadau neu ddiddymiadau, pan gânt eu caniatáu gennym Ni, Ein Hetifeddion neu ein Holynwyr yn y Cyngor, i rym, fel y bydd Ein Siarter hon o hyn ymlaen yn parhau ac yn gweithredu fel pe bai wedi'i chaniatáu yn wreiddiol a'i gwneud yn unol â hynny: a bydd y ddarpariaeth hon yn gymwys i'n Siarter hon fel yr ychwanegir ati neu'i diwygio yn y dull a enwyd.

TRWY WARANT O DAN LOFNOD Y FRENHINES